

Nid “gwna”, ond “gwnaed”

“Oherwydd dioddefodd Crist yntau un waith am byth dros bechodau, y cyfiawn dros yr anghyfiawn.” (adn. 18)

Beth am ddarlhen 1 Pedr 3:8–22 ac yna myfyrio

Ddoe, fe fu i ni sylwi mai'r unig ffordd y gall dyn neu ddynes ddod yn ddinesydd y nefoedd yw trwy enedigaeth. Mae miloedd o bobl yn credu y gallant ddod yn ddinasyddion y nefoedd trwy ffyrdd eraill, ond mae'r syniad yn un anghywir. Rwyf am ddweud eto, yr unig ffordd y gall rhywun ddod yn ddinesydd y nefoedd yw trwy enedigaeth.

Caniatewch i mi nodi rhai o'r syniadau anghywir y mae dynion a gwragedd yn eu coleddu mewn perthynas â dinasyddiaeth nefol. Mae rhai'n credu y gallwch ddod yn ddinesydd y nefoedd trwy ymdrech foesol, hynny yw, medrwch ennill hyn trwy weithredoedd da. Ond yn ôl un pregethwr enwog, ac mae'r gymhariaeth yn un ragorol, ni allwch weithio eich ffordd i'r nefoedd. Mae dynion a gwragedd wedi ceisio gwneud hyn ym mhob cenhedlaeth ond maent bob amser wedi methu. Yn nyddiau Iesu Grist, ymdrechodd y Phariseaid i wneud hyn. Ymdrechodd John Wesley yntau ar hyd y ffordd yma, nes iddo sylweddoli mai'r gair allweddol mewn perthynas â'r bywyd Cristnogol yw nid 'gwna' ond 'gwnaed'. Nid yw cael mynediad i'r nefoedd yn rhywbeth yr ydym i'w wneud, ond yn rhywbeth a wnaed drosom ni ar y groes gan yr Arglwydd Iesu Grist.

Dyweddodd dyn wrthyf unwaith: “Ni fyddaf byth yncolli'r y cyfle i geisio gwneud daioni i rywun. Rwy'n teimlo ei fod, bob amser, yn beth iawn i'w wneud. Os oes nefoedd, rwy'n disgwyl cael mynd yno. Dyna'r lle y dylwn i fod.” Ni all yr holl weithredoedd da y medraf eu cyflawni yn y byd i gyd fy ngwneud i'n deilwng i gael dinasyddiaeth y nefoedd. Mae'n beth rhagorol i fod ag awydd i wasanaethu Duw ond yn gyntaf mae'n rhaid cael cymod gyda Duw. Gallwch ddod yn ddinesydd gwlad trwy ennill y fraint honno, trwy weithio a byw yn y wlad am gyfnod. Ond nid yw hyn yn wir os am fod yn ddinesydd y nefoedd.

Beth am fynd ymlaen i ddarlhen:

1 Pedr 1:13–23; 1 Ioan 5:1; 2 Cor. 5:17

Meddyliwch am y cwestiynau hyn:

1. Beth yw'r had llygradwy?
2. Sut y gwyddom ein bod wedi ein geni o Dduw?

Gweddï

O Dad, yr wyf yn ymwybodol iawn na allaf weithio fy ffordd i'r nefoedd. Diolch fod fy nhocyn wedi ei brynu i mi â gwaed dy Fab ar ben Calfarïa. Sut fedraf ddiolch a channol dy enw ddigon. Bendigedig fo dy enw am byth. Amen.